

Athrawon!... A oes gennych ddisgyblion disglair sy'n serennu mewn celf a chreffft?



Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o ddsbarthiadau meistri arbennig, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael ...

- **Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel**
- **Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chreffft**
- **Dysgu am yrfaedd ym maes celf**
- **Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu**
- **Arddangos eu gwaith celf mewn oriel broffesiynol**



Enwebu eich disgyblion...

Fel athro neu athrawes gallwch enwebu **hyd at 10** o ddisgyblion **Blwyddyn 5 i 9** i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn. Gyrrwch enghraifft o'u gwaith celf atom er ystyriaeth erbyn **13 Rhagfyr 2019** darlennwch am yr hyn sydd angen ei gyflwyno ar y dudalen nesaf...

DYDDIAD CAU!
13 Rhagfyr!

Sut i wneud cais....

Anfonwch **e-bost** atom ar gyfer pob plentyn rydych chi'n ei enwebu -

- Darn o waith celf wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng, ar unrhyw ffurf (2D, 3D neu 4D) o dan y teitl 'Fy Hoff Waith Celf Personol'
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).

Os yr hoffai'r disgybl(ion) gyflwyno gwaith 4D megis ffilm neu waith animeiddio digidol gellid ei ebostio at gwenno.e.jones@flintshire.gov.uk yn hytrach na phostio.

Cofiwch nodi enw, blwyddyn, ysgol, cyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref ar gyfer pob cais, a chadarnhewch eu bod wedi'u rhestru fel disgybl mwy galluog a thalentog.

Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith.

Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynychu rhaglen o ddsbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Chwefror 2020; cychwyn da i'r flwyddyn newydd!

**Mae modd i blant a'u rhieni hunan-enwebu yn ogystal ond bydd gofyn i'w hathro/awes lofnodi bonyn pwrpasol i warantu fod y plentyn wedi eu hadnabod fel disgybl MATH ym maes*

Cysylltu

Nid ydym bellach yn derbyn gwaith celf gwreiddiol ac mae'n rhaid anfon pob darn ar e-bost i - celf@conwy.gov.uk

Bwrsari ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn cinio am ddim yn yr ysgol, cysylltwch am y manylion.

Ffi ymaelodi i rai llwyddiannus £38

Fy Hoff Waith Celf / My Favourite Artwork

Enw / Name: _____ Bl. Ysgol / School Yr.: _____

Ysgol / School: _____

Cyfeiriad Cartref / Home Address: _____

Rhif Ffôn Cartref / Home Phone No.: _____

A yw'r disgybl wedi ei adnabod fel disgybl MATH ym maes celf? / Has the pupil been
 identified as a MAT art pupil? Do / Yes: Naddo / No:

Enw a llofnod yr athro /
 Teacher's name & signature: _____

Paragraff Byr / Short Paragraph...
